**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 13 Ebrill 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M H Jones | W Evans | M B Lewis |
| R D Lewis | P B Smith | D W W Thomas |
| T M White | L J Tyler-Lloyd | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Liam Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 24 Cydymdeimladau - Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin

Dechreuoddy Cadeirydd y cyfarfod gyda munud o dawelwch er cof am Ei Uchelder Brenhinol, y Tywysog Philip, Dug Caeredin.

Eisteddodd pawb yn dawel fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

## 25 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 26 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 9 a 22 Chwefror a 2 Mawrth 2021 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

## 27 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 28 Hen Lofa Cefn Gorwydd, Tre-gwyr, Abertawe.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn ceisio caniatâd i addasu'r Cytundeb Adran 106 mewn perthynas â chaniatâd cynllunio 2017/1451/OUT (ar gyfer datblygiad preswyl hen Lofa Gorwydd, Gorwydd Road, Tre-gŵyr).

Cyflwynwyd y cais o dan A106A(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), ac roedd yr ymgeisydd yn ceisio diwygio'r agweddau canlynol ar y cytundeb A106;
(i) cael gwared ar y cyfraniad addysg ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Saesneg a newid y pwynt sbarduno ar gyfer talu; a
(ii) lleihau cyfraniad y briffordd o £35,000 i £20,000.
(iii) cyflwyno cymal Morgeisai mewn Meddiant ar gyfer y tai fforddiadwy rhentu cymdeithasol.

Amlinellwyd a nodwyd hanes cefndir rhoi'r caniatâd gwreiddiol yn 2018 a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r cynigion diwygiedig yn yr adroddiad.

Derbyniwyd 151 o lythyrau gwrthwynebu hwyr ers cyhoeddi papurau'r agenda.

Roedd y pwyllgor wedi ystyried a gwrthod cais blaenorol i amrywio Cytundeb Adran 106 mewn perthynas â 2017/1451/OUT yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2021, "i newid y rhaniad deiliadaeth tai fforddiadwy, i gael gwared ar y cyfraniad addysg ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn unig ac i newid y pwynt sbarduno ar gyfer y taliad addysg, ac i leihau'r cyfraniad priffyrdd i £20,000" am y rheswm canlynol:

"Byddai'r cynnig i ddarparu tai canolradd fel yr unig fath o dai fforddiadwy a ddarperir o fewn y safle datblygu a sicrheir gan gytundeb Adran 106 yn methu darparu cymysgedd cytbwys o ddeiliadaethau tai, a fyddai'n niweidiol i adfywio cymunedol a chydlyniant cymdeithasol".

Amlinellwyd y newidiadau sylweddol rhwng y cais hwnnw a wrthodwyd yn y cyfarfod diwethaf a'r cais diwygiedig hwn gerbron y Pwyllgor yn yr adroddiad, ac fe'u nodwyd yn y cyflwyniad gan swyddogion.

Anerchwyd y pwyllgor gan Alex Williams (gwrthwynebydd).

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais a bod y cytundeb Adran 106 gwreiddiol sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio 2017/1451/OUT yn cael ei amrywio.

## 29 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

(Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

1) **gohirio'r** cais cynllunio y cyfeirir ato isod er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Darpariaeth Addysg ar gyfer meddianwyr y dyfodol,
darpariaeth barcio, lle ar gyfer amwynderau preifat a chyfraniadau A106 posib.

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2021/0453/FUL - Cadw a chwblhau'r newid defnydd o gartref preswyl (Dosbarth C3) i gartref plant (Dosbarth C2) gyda chynnydd yn uchder crib yr estyniad cefn presennol, addasiadau i'r ffenestriad ac ychwanegu balwstradau gwydr at flaenlun y llawr cyntaf a'r ail lawr yn 260 Oystermouth Road, Canol y Ddinas, Abertawe**

Cyn gohirio:
Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Joanne Jones (gwrthwynebydd) a Joseph Pasha (ymgeisydd).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd D Phillips (aelod lleol).

2) **gohirio’r** cais cynllunio a nodir isod er mwyn cynnal ymweliad safle.

**#(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2020/1590/FUL - Newid defnydd o Gyfleuster Cymunedol (Dosbarth D2) i Anheddau Preswyl (Dosbarth C3) ac ailddatblygu'r safle i ddarparu 23 o unedau gydag estyniad to cysylltiedig, mynediad newydd i gerbydau, gwaith isadeiledd a thirlunio yn hen safle Clwb Bechgyn Abertawe, Berwick Terrace, Mount Pleasant, Abertawe**

Cyn gohirio:
Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Diwygiad i dudalen 105 yr adroddiad:
Newid y geiriad 'symud y rhwystr cerbydau ar hyd Berwick Terrace' i 'ailosod y rhwystr cerbydau ar hyd Berwick Terrace'. Mae hyn er mwyn adlewyrchu mai pwrpas cael gwared ar y rhwystr yw caniatáu mynediad i gerbydau i'r safle yn unig. Bydd Berwick Terrace yn parhau i fod ar gau ar ôl y gwaith datblygu, ond gyda'r pwynt cyfyngu wedi'i adleoli i'r de ar hyd Berwick Terrace, y tu hwnt i'r mynediad newydd.

Diwygio Amod 6 ar dudalen 108 i'r canlynol:
6. Ni fydd y fflatiau a gymeradwyir drwy hyn yn cael eu dwyn i feddiant buddiol hyd nes y bydd y rhwystrau ar Berwick Terrace wedi'u hadleoli i leoliad i'r de o'r mynediad newydd arfaethedig a bod diwygiadau i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig wedi'u cwblhau.

3) **cymeradwyo'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.**

**#(Eitem 3) – Cais Cynllunio 2020/2393/TEM - Defnyddio tir ar gyfer rali gwersylla ar gyfer uchafswm o 130 o unedau rhwng 25 Awst 2021 a 5 Medi 2021 (cynhwysol) ym Maes 7700, Bank Farm, Horton, Abertawe**

Daeth y cyfarfod I ben am 4.02 pm

**Cadeirydd**